
# Y NEGESYDD

EGLWYS EMAUS BANGOR

## GORFFENNAF 2025

## GAIR GAN Y GWEINIDOG
**Mwy nag archeb Amazon**



***"Ti a greodd fy ymysgaroedd a'm llunio yng nghroth fy mam."***
(Salm 139 adnod 13)

### PERSON NEU EIDDO?

Dros y canrifoedd, mae na ailfeddwl mawr wedi digwydd mewn pob math o feysydd yn ymwneud â hunaniaeth a'n perthynas ni a'n gilydd fel bodau dynol. Mae caethwasiaeth, er enghraifft, oedd unwaith yn beth cyffredin, erbyn hyn yn cael ei gyfrif yn wrthun a'r syniad bod person yn medru bod yn berchen ar fywyd dynol yn gwbl annerbyniol. Mae perthynas dynion a merched wedi dod dan y chwyddwydr hefyd. Mewn gwasanaethau priodasau a fu, byddai tad y briodferch yn rhoi ei ferch i'w darpar ŵr yn symbol ei bod hi'n cael ei throsglwyddo o berchnogaeth ei thad i berchnogaeth ei gŵr. Erbyn hyn, mae gwasanaethau cyfoes wedi eu haddasu i adlewyrchu cyfartaledd rhwng dynion a merched gyda'r briodferch a'r briodfab yn cael eu cyflwyno i'w priodi mewn nifer o briodasau erbyn hyn i osgoi unrhyw awgrym bod y briodferch yn eiddo i neb. Wrth deipio'r geiriau yma, dwi'n ymwybodol o'r drafodaeth am gyfreithloni erthyliad sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dwi ddim yn bwriadu ceisio mynd i'r afael â mater mor astrus yma, ond digon yw nodi fy mod i'n bersonol yn gwrthwynebu erthyliad onibai bod yna reswm meddygol, boed gorfforol neu feddyliol i wneud hynny ond gwn bod llawer yn ei gweld hi fel arall.

Yr hyn dwi am ei herio yma ydy un ddadl a ddefnyddir yn aml dros ganiatáu erthylu sef *'bod hawl gan ferch ddewis be sy'n digwydd i'w chorff ei hun'*, dadl sy'n awgrymu bod y plentyn yn y groth yn eiddo i'w fam i'w warchod neu ei waredu heb gydnabod gwerth a hawliau y plentyn fel person. Petai caethwas neu wraig yn cael eu trin fel eiddo rhywun arall fe fydden ni'n dadlau'n gryf dros eu hawliau, pam felly nad ydyn ni'n rhoi'r un ystyriaeth i'r plentyn yn y groth? Bu rhai'n dadlau dros y blynyddoedd nad ydy embryo yn cyfrif fel person go iawn nes gorffen datblygu'n llwyr ond, gyda datblygiadau meddygol cyfoes, gwyddom fod modd i fabanod cynnar-anedig oroesi yn ifanc iawn, ac felly aeth y ddadl simsan honno yn fwy sigledig byth. Ysgrifennodd Dafydd Iwan gwestiwn pwerus yn llais plentyn sy'n dioddef o newyn, geiriau y mae hi'n hawdd eu rhoi yng ngenau plentyn yn y groth sydd dan fygythiad – '***pam na chaf fi hefyd hawl i fyw***? Fel Cristnogion, nid yn unig fe'n gelwir ni i warchod hawl pob unigolyn i fyw ond da ni'n mynd gam ymhellach ac yn dweud mai rhodd ydy pob bywyd dynol oddi wrth Dduw a mai ***'Duw piau edau bywyd, a'r hawl i fesur ei hyd'.***

## FFRAMWAITH

Os nad ydyn ni fel cymdeithas yn rhoi rhyw fath o fframwaith cadarn yn ei le, hawdd iawn y gallwn ni ddychmygu merched mewn cenedlaethau i ddod yn cael dewis canslo babi mor rhwydd â chanslo archeb Amazon am nad oes ganddo ef neu hi 'y lliw llygaid cywir' neu os nad yw'n cyrraedd ar yr adeg mwyaf *'delfrydol'* i'r fam. Yn 1988, ysgrifennodd Graham Kendrick emyn o gyffes ein bod fel cymdeithas mor barod i aberthu plant heb eu geni ar allor ein huchelgais a'n trachwant, emyn a gyfieithiwyd yn gynnil effeithiol gan y Parch Sion Aled.

*(Caneuon Ffydd rhif 863)*

***Pwy all blymio dyfnder gofid***
***Duw ein Tad o weld ei fyd?***
***Gweld y plant sy'n byw heb gariad,***
***gweld sarhau ei gread drud:***
***a phob fflam ddiffoddwyd gennym***
***yn dyfnhau y nos o hyd;***
***ein Tad, wrth Gymru,***
***ein Tad, wrth Gymru,***
***O trugarha!***

## CEFNOGI RHIENI

Nid yn unig y mae angen rhoi fframwaith cadarn yn ei le ar gyfer y plentyn yn y groth ond mae'n rhaid i ni roi fframwaith gadarnach yn ei le i gefnogi mamau (a thadau) ar enedigaeth eu plant – yn enwedig y rhai sy'n ei chael hi'n anodd oherwydd diffyg cefnogaeth deuluol neu ddiffyg adnoddau. Drwy ddarparu mwy o gefnogaeth i rieni a gwell mynediad i gyfleusterau gwarchod plant, mae modd gwneud yr her o fagu plentyn yn llai o fynydd i'w ddringo.

## Y GENHADAETH



Derbyniwyd llythyr o Swyddfa'r BMS yn Didcot yn nodi mor werthfawr ydy'r cyfraniad a anfonwyd fis Mawrth. Mae'r cyfraniadau hyn yn newid gwerth bywyd i wragedd yn Bangladesh ac mae'n dda gwybod ein bod yn rhannol gyfrifol am hynny.

Mae hanes Charles wedi bod yn ysbrydoliaeth hefyd. Roedd o'n ofni'r dyfodol - pryder am brinder bwyd, ofni'r plant fynd yn sâl ac angen meddyg. Roedd yn teimlo'n ddiymadferth. Bu i'n cyfraniad ni ei alluogi i gael hyfforddiant drwy'r eglwysi a dysgu ei werth yng ngolwg Duw. Ceir ei hanes yn rhifyn cyfredol ***Engage***.

## MASNACH DEG

Cynhelir y bore coffi Masnach Deg nesaf

fore Sadwrn, Gorffennaf 5ed, o 10 – 12 o'r gloch.

Hwn fydd y cyfle olaf i brynu eich nwyddau tan fis Medi.

# AILDDARGANFOD HEN HALELIWIA

Bydd rhai ohonoch yn cofio taith ddiwethaf Lleuwen Steffan yn dod i Fangor ac i Gapel Emaus ddiwedd 2024 ac yn ei chofio hi'n curadu nid yn unig emynau coll ond cymeriadau cyffredin anghofiedig oedd wedi profi cynhyrfiadau ysbrydol Diwygiad 1904/05 ac yn gwneud y casglu a'r cyflwyno gyda sensitifrwydd a chariad. Os rhywbeth, cryfder y perfformiad hwnnw oedd cyflwyno'r deunydd crai mewn ffordd weddol amrwd ac roedd y ffaith ei fod yn sioe un ddynes yn golygu bod Lleuwen yn rhoi ei hun drwy'r felin yn emosiynol er mwyn dod â'r gorffennol yn fyw.

Roedd y sioe newydd, Tafod Arian, ddaeth i Pontio ar Fehefin y 6ed, hefyd yn dechrau gyda'r emynau coll gan roi bywyd newydd i recordiadau archif a sicrhau bod yr emynau llafar gwlad yn dal i hawlio eu lle ar lwyfannau Cymru heddiw, ond roedd na deimlad reit wahanol i'r cyflwyniad y tro hwn. Roedd gan Lleuwen bellach gwmni cantores brofiadol o Lydaw, Nolwenn Korbell gyda'i llais aeddfed oedd yn cyfoethogi'r sain a braf oedd inni gael y cyfle yn ystod y noson i fwynhau blas o'r iaith a'r diwylliant Llydewig. Ychwanegodd Gethin Elis (Lôn Meirion), cerddor ifanc amryddawn, nid yn unig ei lais ei hun i'r cyflwyniad ond hefyd ystod eang o 'leisiau' offerynnol – y gitâr, y corn ffrengig a'r allweddellau, nid yn gymaint i gyfeilio i'r canu ond i ychwanegu nodau cyfoethog a disglair i'r seinlun. Yn gefndir i'r cyfan roedd cyfres o sleidiau a fideos wedi eu rhoi at ei gilydd yn grefftus gan Aled Victor a'r cyfan yn creu cyflwyniad amlhaenog a gorffenedig.

Er bod **Tafod Arian** yn dechrau gyda deunydd o'r gorffennol, roedd yn teimlo fel profiad cwbl gyfoes ac roedd y defnydd cyson o ddrymio fel curiad calon drwy'r cyfan yn ategu hynny. Roedd yr hen emynau fel petai nhw wedi cael eu huwchgylchu a'u brodio gyda deunydd newydd sbon er mwyn mynegi rhywbeth am yr enaid cyfoes. Wrth adael Pontio y noson honno, y teimlad oedd ein bod ni yng nghwmni Lleuwen wedi ailddarganfod yr 'hen Haleliwia'. Ond mae ffydd yn cynnwys ing yn ogystal ag angerdd ac fe gawsom ddarlun ddirdynnol o gyfoes sy'n aros yn y cof – y Crist dioddefus ar Galfaria yn edrych draw ar Balesteina lle mae'r plant yn dioddef. Roedd na linell o'r un gân yn dal i ddiysbedain wrth fynd am adre -'rwan ydy'r amser i greu gwyrthiau'. Diolch am noson wych a chreadigol a phob hwyl i'r tri wrth iddyn nhw fynd ar daith i berfformio yn Nenmarc dros yr haf!



GETHIN ELIS



NOLWENN KORBELL



LLEUWEN STEFFAN

**SWYDDFA NEWYDD UBC**

Yn y rhifyn cyfredol o **Cwlwm**, gwelir ar dudalen 17 fod Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru wedi symud o'r ***Llwyfan*** i

**Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.**

*Mae Rhifyn 73 yn llawn erthyglau difyr ac amrywiol ac yn werth bob ceiniog o'r 50c y gofynnir amdano.*


*Mae cyflenwad o 20 ar gyfer Emaus ac mae 18 ar gael felly y cyntaf i'r felin amdani.*

Mae blwch gonestrwydd gyda'r cylchgrawn!

**CYLCH DARLLEN**

*Gan na fu cylch darllen ddechrau Mehefin*
*yr un fydd y llyfr*
*ar gyfer Gorffennaf 4,*
*sef* **Tempo**
*gan* **Rhianedd Jewell**,
*a'r un fydd y lle a'r amser :*
*Emaus, 2.00 o'r gloch -*
*a bydd y croeso*
*yr un mor gynnes.*

Cathrin Williams






# OEDFAON A CHYFARFODYDD

## Gorffennaf

**Bore Sadwrn, 5 Gorffennaf, 10am tan 12pm**
Bore Coffi Masnach Deg

**Bore Sul, 6 Gorffennaf**
Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog

**Pnawn Iau, 10 Gorffennaf, 3pm tan 4pm**
Cyfarfod 'paned a sgwrs'

**Bore Sul, 13 Gorffennaf**
Oedfa bob oed dan arweiniad y gweinidog

**Bore Sul, 2O Gorffennaf**
Oedfa dan arweiniad y Parchg Robin Samuel

**Bore Sul, 27 Gorffennaf**
Oedfa dan arweiniad y gweinidog

## Awst

**Bore Sul, 3 Awst**
Oedfa undebol Berea Newydd

**Bore Sul, 10 Awst**
Oedfa undebol Emaus

**Bore Sul, 17 Awst**
Oedfa undebol Berea Newydd


**Bore Sul, 24 Awst**
Oedfa undebol Emaus

**Bore Sul, 31 Awst**
Oedfa undebol Berea Newydd




**GADEIRYDD CYNGOR CEREDIGION,**
**Ein llongyfarchiadau mawr i**
**Ann Morgan**
**sydd bellach yn Gadeirydd**
**Cyngor Ceredigion,**
**gynt yn aelod o Penuel.**
**Ein dymuniadau gorau iddi.**

# BLODAU




## BLODAU
## MIS GORFFENNAF

Diolch i Marian, Mair ac Anwylyd am roi'r blodau yn ystod mis Mehefin

## MIS GORFFENNAF

| | |
|---|---|
| 6 ac 13 | Nia Llwyd |
| 20 | Ann Roberts |
| 27 | Eleri Williams |

*Diolch*

Meriel a Kath

***merielparry@gmail.com***



## SUSAN JAMES

***Mai eleni, bu farw un o'n haelodau sef Mrs Susan James, Lôn yr Hafod, wedi cyfnod o salwch.***
***Ar Fehefin yr 2ail, daeth y teulu a'u ffrindiau agosaf at ei gilydd yn amlosgfa Bangor ar gyfer gwasanaeth i roi diolch i Dduw am ei bywyd ac, yn ystod y gwasanaeth, cefais gyfle i sôn ychydig am ei hanes a'i chyfraniad.***

Diolch i'r teulu am gael rhannu'r geiriau yma yn y Negesydd.

### DYDDIAU CYNNAR

Cafodd Susan Hughes ei geni yn Deri ger Bargoed yn ferch i Gloria a Selwyn Hughes. Roedd tad Gloria yn gweithio ar y rheilffordd a thad Selwyn yn gweithio dan ddaear fel glöwr felly roedd gan Sue wreiddiau dwfn yn y De diwydiannol a'i bywyd cynnar wedi ei siapio gan yr ysbryd cymunedol a fodolai yno a chymdeithas lle roeddpawb yn cael eu trin yn gyfartal. Roedd ganddi hi a'i theulu wreiddiau hefyd mewn Cristnogaeth ac enwad arbennig, sef y Bedyddwyr. Roedd y teulu yn aelodau selog o Gapel Bedyddwyr Deri a'i mamgu (mam Selwyn) yn cadw'r tŷ capel ac yn aelodau'n ddiweddarach gyda'rBedyddwyr yn Fochriw lle symudodd y teulu pan oedd Sue ond ychydig fisoedd oed. I'r rhai ohonoch sydd ddim yn nabod y De-ddwyrain yn dda, mae Fochriw rhwng Cwmdarron a Chwm Rhymni ac i Gapel Noddfa, Fochriw yr aeth y teulu o hynny ymlaen dan weinidogaeth y gweinidog y Parchg Tom Thomas a dyna lle y cafodd Sue fynd i'r Ysgol Sul a dysgu rhinweddau moesol.

### ADDYSG AC HYFFORDDIANT CYNNAR

O Fochriw, byddai Susan yn teithio wyth milltir i Fargoed i fynd i'r Ysgol Uwchradd – nid y tirwedd hawsaf i'w drafaelu gan ei fod dros y mynydd. Yn Bargoed roedd hi'n hoff iawn o fynd i nofio yn y Lido, pwll nofio awyr agored. O'i chyfnod yn yr ysgol, mae na adroddiad diwedd blwyddyn a diwedd ysgol wedi goroesi yn yr archif deuluol yn dyddio o 1966 sydd, yn ogystal, yn nodi'r marciau uchel yn y gwahanol bynciau ('***an excellent result***') yn rhoi arwydd clir o'r bersonoliaeth arbennig oedd yn brysur datblygu yn Sue: ***"Susan has worked very hard and very consistently the whole time she has been in this school. She always does her best not only in the academic subjects but also in every activity through the year. She is developing into a most reliable, mature teenager, with a pleasant disposition. She is always polite.***
***Keep up this standard Susan.***"
Arwyddwyd yr adroddiad gan y prifathro, Mr A J Williams, sy'n crynhoi ei sylwadau gyda geiriau o glod sy'n nodweddiadol o'r cyfnod - ***"Good Girl!"***

O'r cyfnod yma hefyd mae tystysgrifau sy'n nodi ei chyrhaeddiad mewn cymorth cyntaf a ddyfarnwyd gan Frigâd Ambiwlans St Ioan fel rhan o'r **Gelligaer Urban District Cadet Competition (1968 a 1969)** oedd yn paratoi'r ffordd at ei gyrfa yn y maes meddygol yn ddiweddarach. Mae yna hefyd dystysgrif anrhydedd am gasglu at **Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr** sy'n adlewyrchu'r ymroddiad a'r brwdfrydedd a fyddai'n parhau gyda Sue drwy'i hoes.

## Y BENNOD NESAF

Wedi gadael yr ysgol, ei swydd gyntaf oedd gwneud gwaith gweinyddol mewn garej lleol ond ymgeisiodd am leoliad fel nyrs dan hyfforddiant ac, wedi cael ei derbyn, dechreuodd weithio rhwng dau Ysbyty ym Merthyr Tudful sef y *Santes Tudfil* ac *Ysbyty Cyffredinol Merthyr*. Yma y cyfarfu â Wayne oedd yn gweithio fel *'houseman'* yno ar y pryd – ac mae'r gweddill yn hanes! Priodwyd y ddau yn 1978 yn Eglwys Pontlotyn a byw am nifer o flynyddoedd yng Nhaerdydd, mewn tŷ yn Cathedral Road ond pan ddaeth swydd yn wag yn yr hen C and A, symudodd y ddau i Fangor gan wneud eu cartref yn Goleufryn, Penrhosgarnedd. Wedi cyfnod o ychydig flynyddoedd yn ôl yng Nghaerdydd, daeth y cyfle i Wayne drïo am swydd ymgynghorol ym Mangor. Bu'n llwyddiannus a dyma nhw'n symud i'r Gogledd am yr ail waith.

## LÔN YR HAFOD

Roedd symud am yr eildro i Ogledd Cymru, yn ôl Wayne, ychydig yn debyg i'r ddrama deledu o'r 1970au *The Good Life*. Wedi byw ynghanol mwg a sŵn y ddinas, roedd Sue a Wayne yn dyheu am wneud eu cartref yn nes at natur lle y gallent dyfu eu bwyd eu hunain. Drwy symud i'w bwthyn yn Lôn yr Hafod ar gyrion Bangor yn 1982, gwireddwyd y freuddwyd honno a phan ddechreuodd Wayne weithio yn Ysbyty Gwynedd newydd roedd hi'n bosib iddo gerdded i'r gwaith cyn encilio nôl adre i dendio'r ardd. I'r cartref yma y croesawyd Eluned yn 1986 a Heledd yn 1991 gan lenwi'u bywydau a'u byd. Yn y cyfnod yma pan oedd y plant yn fach roedd Sue yn gweithio'n rhan amser fel nyrs ond aeth ati maes o law i hyfforddi fel bydwraig gan weithio yn y clinigau gynaecolegol yn Ysbyty Gwynedd hyd nes ei hymddeoliad cynnar yn 50 oed.

## YMRODDIAD AC YMRWYMIAD

Roedd symud i'r Gogledd yn golygu llawer mwy i Sue na dim ond gadael ei bro enedigol a dod i nabod ardal newydd. Wrth symud yma, fe wnaeth hi a Wayne ymroi i ddysgu Cymraeg ac i godi'r plant fel siaradwyr Cymraeg naturiol. Yn addas iawn, daeth angladd Sue ar ddiwedd wythnos **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Margam,** wythnos pan dorrwyd pob record am y nifer o ysgolion gyda phlant ail-iaith oedd yn cystadlu ac yn cael eu cynnwys a'u dathlu. Mae'r Gymraeg yn rhodd werthfawr i roi i'ch plant a'ch wyrion, yn enwedig os na chawsoch chi'r iaith eich hun yn blentyn ond mae'n golygu ymrwymiad ac ymroddiad a does dim dwywaith, roedd gan Sue a Wayne ddigonedd o hynny.

## BYWYD BANGOR

Mae hi'n anodd cofio bod Sue wedi ei magu ar aelwyd heb yr iaith Gymraeg oherwydd iddi ymroi mor frwdfrydig i ddysgu a defnyddio'r iaith ar ôl iddi hi a Wayne symud i'r Gogledd.
Mae nifer yn cofio mwynhau ei chwmni ym mywyd Cymraeg Bangor dros y blynyddoedd gan gynnwys cyfarfodydd **Merched y Wawr** a'r **Cylch Ti a Fi.** Roedd plant yn bwysig iawn iddi ac roedd hi'n medru cyfathrebu efo plant o bob oed. Pan ymunodd â Phenuel roedd hi'n gefnogol a gweithgar gyda'r Ysgol Sul ac wrth ei bodd yn helpu gyda threfniadau'r parti Nadolig a Siôn Corn. Mae'r teulu'n cofio Siân Arwel *(Anti Siân)* yn athrawes Ysgol Sul ar Eluned a Heledd, ac mae Nia Llwyd yn cofio'r ddwy yn chwarae yn y band mewn gwasanaethau gan wneud llawer o ffrindiau yn y cyfnod hwnnw sydd yn dal ffrindiau hyd heddiw. Gwnaeth Sue gysylltiad arbennig â'r gweinidog yn y cyfnod hwnnw sef y diweddar Barchedig Ifor Williams a hynny am eu bod yn dod o ardal a chefndir tebyg yn y De.

## ACHOSION DA

Dros y blynyddoedd, rhoddodd Sue lawer o amser ac egni i gefnogi elusennau oedd yn agos at ei chalon gan gynnwys **Action Research**, elusen sy'n noddi ymchwil i anhwylderau mewn

plant a chodi llawer o arian iddynt. Bu'n weithgar hefyd gyda changen Bangor o'r **Samariaid**, y gangen sy'n sicrhau bod llinell Gymraeg ar gael bob amser i'r rhai sydd angen sgwrs, ac addas iawn yw bod yna gasgliad tuag at y Samariaid er cof amdani.

## Y TEULU

Ond wrth gwrs, y peth pwysicaf i Sue oedd ei theulu – roedd y teulu'n golygu popeth iddi – ei gwr Wayne a'i brawd, Phillip. Roedd hi'n meddwl y byd o Eluned a Heledd, Martyn a Huw ac wedi dotio pan gyrhaeddodd Rhys, Tomos a Tal. Bydd ganddynt atgofion i'w trysori am byth o wraig, chwaer, mam a mamgu annwyl a llawer o straeon i'w hadrodd am flynyddoedd i ddod am berson arbennig iawn. Yr hyn sy'n gyffredin yn atgofion pawb o Sue ydy ei phersonoliaeth – person serchog a charedig, awyddus i helpu eraill ac i wneud yn fawr o bobl eraill a ddim yn dymuno i bobl wneud ffỳs ohoni. Mae'r geiriau am gariad a ddarllenwyd yn y gwasanaeth o bennod 13 llythyr cyntaf Paul at y Cristnogion yng Nghorinth yn hynod addas. Mae'r englyn yma o waith Machraeth yn crynhoi pa mor annwyl a chymwynasgar oedd Sue ac yn ein hatgoffa gymaint oedd ei hardal enedigol yn ei feddwl iddi.

**Un yw hon llawn daioni – yn annwyl**
**ac unwedd â Rhymni**
**Cawn bob lles o'i hanes hi**
**Ei hanes dry'n oleuni.**

*Machraeth*



# LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau calonnog iawn i Elain Iorwerth, wyres Olaf a Helen Davies, Llandegfan, yn Eisteddfod Môn Bro Seiriol, Biwmaris. Cafodd Elain lwyddiant ysgubol ym mhob cystadleuaeth roedd hi'n rhan ohoni a rhagbrofion wedi bod bron ar bob cystadleuaeth a *'hen lawiau'* yn ymgeisio ond fe orfu Elain ac ennill ***Tlws yr Ifanc, Yr Unawd Gymraeg, Alaw Werin, Cerdd Dant a Canu Emyn dan 19!!***



## **SIALENS 85km WES A CATRIN** - *dilyniant o* ***Negesydd Mehefin***

*(Nid yw'r lluniau, o reidrwydd, yn dilyn yn union drefn camau'r teithio)*

Mae'r her o gerdded dros Gymorth Cristnogol wedi dod i ben yn swyddogol erbyn hyn, a chasglwyd cyfanswm o £1,625 (£1,895 wrth ychwanegu Rhodd Cymorth).

Diolch yn fawr iawn i aelodau Emaus a gyfrannodd yn hael i'n helpu i ddyblu ein nod gwreiddiol o £800.

Yn ystod y teithio, cafodd y ddau ohonom gyfle i feddwl am yr holl wragedd a phlant sy'n gorfod cerdded am oriau bob dydd i nôl dŵr glân, a sylwi'n sydyn bod sychder yn digwydd hyd yn oed yma yng Nghymru pan fo'r tymheredd yn codi. Yr un pryd, roeddem yn cael mwynhau y golygfeydd gwych, ac yn rhyfeddu at yr holl flodau lliwgar o'n cwmpas.

Diolch unwaith eto am ein cefnogi. Mwynhewch y lluniau a dyfalwch y lleoliadau ac enwau'r planhigion.

***Wes a Catrin***















# CORNEL POSAU GARETH

## ATEB I BOS MEHEFIN

*POS CORLANNU DEFAID*

**9 corlan**

## POS GORFFENNAF 2025

# POS CANT

Mae gen i rif.
Rwyf yn dyblu'r rhif
ac yn adio 1 ato.
Rwyf wedyn yn treblu
yr hyn sydd gen i
ac yn adio 1 eto.
Erbyn hyn mae gen i 100.
Beth oedd fy rhif
gwreiddiol?

***Bydd yr ateb yn rhifyn Awst/Medi.***

## BORE COFFI
## BUGEILIAID Y STRYD BANGOR

Cafwyd bore coffi llwyddiannus iawn yn Berea Newydd Dydd Sadwrn, Mai 24ain, er budd

***Bugeiliaid Stryd Bangor.***

Daeth nifer dda o bobl ynghyd i fwynhau paned a sgwrs gyda'i gilydd a chodwyd y swm anrhydeddus iawn o £400.70.
Diolch yn fawr iawn i bawb gefnogodd ac a gyfrannodd gacen.
Roedd Inma, ein trysorydd diwyd, yn hapus iawn gyda'r casgliad terfynol!



## WYTHNOS WEDDI AM UNDOD CRISTNOGOL 2025

Eleni, penderfynodd pwyllgor gwaith Cytûn Bangor gynnal yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol yn ystod tymor y Pentecost yn hytrach nag ym mis Ionawr fel arfer. Arbrawf oedd hyn i weld os byddai mwy o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd pan fyddai'r tywydd yn brafiach! Nid yn unig hynny ond 'roedd yr arlwy yn wahanol i'r hyn a gafodd ei drefnu yn y gorffennol. Er na chafwyd gymaint o gefnogaeth i rai digwyddiadau ag yr oeddwn yn gobeithio, gellir tystio i bawb ddaeth ynghyd cael bendith yng nghwmni eu cyd-gristnogion.
Dechreuodd yr Wythnos Weddi ar Ddydd Sadwrn, Mai 31ain, gyda thaith gweddi o gwmpas canol Bangor, wedi ei drefnu gan John Hay, eglwys Sant Ioan. Cychwynwyd yn Emaus ac yna cerdded i fyny Lon Cariadon a dilyn llwybr newydd ar hyd wal Parc y Coleg. Wedi cyrraedd uwchben Pontio, cafwyd seibiant i edrych allan dros ganol y ddinas a gweddïo drosti.



Edrych ar y dref o Pontio



Ger y Gadeirlan

**Yna cerddasom i lawr Lon Penrallt at Pontio a chael seibiant o weddi arall yno, dros bobl ddiniwed ein byd sy'n dioddef oherwydd rhyfel a thrais. Wedyn cerdded i fyny at y Gadeirlan a gweddio dros y Stryd Fawr a'r holl fusnesau sy'n ymdrechu i ddal ati ar waethaf yr hinsawdd economaidd. Gorffennwyd gyda phicnic yn y parc chwarae ger Storiel. Er nad oedd y tywydd yn braf, daeth nifer dda o bobl wahanol ar y daith ac 'roedd yn dda cael gweddio dros yr ardal hardd rydym yn byw ynddi. Llawer mwy siomedig oedd yr ymateb i'r diwrnod crefft yn neuadd eglwys Sant Ioan ar Ddydd Mercher, Mehefin 4ydd. Y dasg oedd llunio tarian yn cyfleu beth oedd yn bwysig am ein ffydd. Dyma lun o rai daeth ynghyd:**



**Diolch i Sue Eckersley, eglwys Sant Ioan, am drefnu'r diwrnod a darparu cawl blasus i ni fwyta!**

**Yn olaf cynhaliwyd oedfa ddwyieithog yn Emaus ar bnawn Sadwrn, Mehefin 7fed. Roedd y rhaglen yn seiliedig ar thema'r Wythnos, sef "A wyt ti'n credu hyn?" ac yn dathlu pen-blwydd Credo Nicea yn 1700 mlwydd oed eleni. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr rhai o eglwysi Cytûn Bangor dan arweiniad John Hay a finnau. Uchafbwynt yr addoliad oedd rhannu goleuni'r ffydd gyda'n gilydd ar ffurf cannwyll. Diolch i bawb gymerodd rhan a'r rhai ac a drefnodd y baned wedyn.**

*Eleri Lloyd Jones*

# NOSON I'W CHOFIO

## THE DREAM OF GERONTIUS



Leah Marian Jones



David Kempster



Gwyn Hughes Jones



Sir Terry Waite

Cefais y fraint o fod yn aelod o Gantorion Menai am rai blynyddoedd a chael yr hwyl ryfedda yn canu dan arweiniad Enid Griffiths ac yna Gwyn L Williams - neu Gwyn L fel y mae'n cael ei adnabod. Cofiaf am y cyffro wrth baratoi at y cyngherddau a'r wefr o berfformio. Fel y gwyddom, mae sawl aelod o Emaus ymhlith Cantorion Menai.

*The Dream of Gerontius*, *Edward Elgar*, wedi ei seilio ar gerdd *Cardinal Newman*, a ddewisodd Gwyn L ei lwyfannu y tro yma - gwaith yr oedd wedi deisyfu ei arwain ers tro byd. Nid ar chwarae bach y perfformir gwaith o'r fath. Mae angen cymaint o adnoddau lleisiol ac offerynnol. Ond bu Gwyn L yn feistr ar drefnu a chyfarwyddo ar hyd y blynyddoedd. Does ryfedd iddo ennill sawl anrhydedd gan gynnwys ei wneud yn Gymrawd o **Urdd Cerddoriaeth Cymru** am ei ' *gyfraniad unigryw i fywyd cerddorol Cymru*'.

Roedd Neuadd P.J. yn orlawn Nos Sul Mehefin 8ed a'r gynilleidfa'n edrych ymlaen yn eiddgar. Hanes taith Gerontius o'i farwolaeth hyd at y foment y cludir ef i bresenoldeb Duw ydy Breuddwyd Gerontius.

Ysgrifennwyd y darn ar gyfer dau gor a rhangor a cherddorfa symffoni. Felly yn ymuno a Chantorion Menai ar lwyfan Neuadd P.J. oedd *Liverpool Welsh Choral*, *Cor Cadeirlan Sant Deiniol,Bangor a Cherddorfa Symffoni Prifysgol Bangor*. Cyfuniad ardderchog o leisiau ac offerynnau.

Swynwyd ni gan leisiau cwbl arbennig y tenor Gwyn Hughes Jones - **Gerontus**, y mezzo soprano Leah Marian Jones - **Angel** a'r baritone David Kempster - **offeiriad** ac **Angel y Dioddefaint.**

Mae'r gwaith yn rhyfeddol - a'r sain mor gyfoethog.


Soniodd Sir Terry Waite, mewn sgwrs cyn y cyngerdd, sut y daeth cerddoriaeth Elgar a heddwch a thawelwch i'w enaid ar adeg tywyll iawn yn ei fywyd.

Rydwi'n siwr i minnau, yn y gynlleidfa, brofi'r heddwch hwnnw.

Noson arbennig a fydd yn aros am yn hir yn y cof.

***Ann Roberts***

## ANRHYDEDD O’U DERBYN I ORSEDD CYMRU



**Llongyfarchiadau gwresog a haeddiannol i dri sydd wedi bod â chysylltiad agos iawn efo Emaus (Penuel) ers blynyddoedd maith.**

**Bydd Dewi Llwyd, Gwenllian Lansdown Davies a Bill Davies yn cael eu derbyn i Orsedd Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 2025.**



# DYDD IAU DYRCHAFAEL

Yn ei galwad ffôn wythnosol ddiweddar, dywedoddd ein hwyres Marian sy'n byw yn Rennes yn Llydaw, y byddai'n cymryd mantais o ŵyl genedlaethol swyddogol, sy'n cyfateb i ŵyl y banc yma, i ymweld â'i theulu ym Mharis. Yr ŵyl hon oedd ***Dydd Iau Dyrchafae***l.

Mae'n syndod fod gweriniaeth Ffrainc, sy'n ymfalchïo yn seiliau seciwlar y chwyldro Ffrengig, yn dal i nodi prif wyliau'r Eglwys. Heblaw y **Nadolig** a’r **Pasg** bydd pawb yn mwynhau gwyliau cenedlaethol ar **Ddydd Iau Dyrchafael, Dydd Llun y Pentecost a Gŵyl yr Holl Saint** ar 1 Tachwedd pan fydd Ffrancwyr yn gosod blodau i addurno beddau tylwyth a chyfeillion. *Chrysanthemum* ydy'r dewis traddodiadol.

Mae'r sefyllfa yn wahanol iawn ym Mhrydain er bod Eglwys Loegr yn rhan o gyfansoddiad y wlad. Erbyn hyn disodlwyd hyd yn oed **Llungwyn y Pentecost** gan Ŵyl Banc y Gwanwyn. A ydyw o bwys bod aelodau eglwysi yn unig sy'n debyg o nodi Sul y Pentecost? Bydd mwyafrif y boblogaeth erbyn hyn yn hollol anymwybodol o'r dyddiad ac y mae hyn yn debyg o fod yn golled i'r diwylliant cenedlaethol.

***Gareth Jones***



# ABSELIO I LAWR TWR MARCWIS

**Roedd hi'n ddiwrnod braf, heulog gyda dim ond ychydig o wynt. Os oedd dringo i fyny grisiau'r tŵr yn gamp, 'roedd disgyn i lawr dipyn haws! Ar y top cawsom olygfa hyfryd o bawb oedd wedi dod i weld ac i gefnogi'r rhai oedd yn abseilio. Daeth rhai o'r plant a staff Tŷ Golchi yno hefyd i gefnogi. Roedd teulu cyfan un ferch fach - mam, dad a chwaer - yn abseilio gyda mi.**

**Yn ystod yr wythnosau cyn gwneud y gamp, roedd nifer o bobl wedi dweud wrthyf: "Www, rwyt ti'n ddewr yn gwneud yr abseil… Does gennyt ti ddim ofn?" I ddweud y gwir, doedd gen i ddim ofn o gwbl - hyd yn oed ar dop y tŵr pan oeddwn ar fin dod i lawr. 'Roedd y person oedd yn gyfrifol am yr offer yn gwneud yn siŵr fod pob dim yn iawn ac yn saff. Yn wir fe ddaru hi newid y rhaff roeddwn yn gyfrifol amdani oherwydd nad oedd yn hapus gyda'r ffordd roedd hi wedi ei chlymulu a'i ail-glymu'r ffordd iawn. Mae'n rhaid bod fy wyneb yn dweud y cwbl oherwydd fe ddywedodd hi: "Paid â phoeni. ti'n digon saff!"**

**Roedd hynny'n wir oherwydd roedd hi'n gyfrifol am yr ail raff o'm cwmpas, rhag ofn fyddai rhywbeth yn digwydd! Roedd y profiad yn anhygoel a faswn yn ei wneud o eto. Diolch i Paul, Cian, Jane a Casi am ddod i gefnogi ar y diwrnod a gweld fi'n abseilio. Diolch hefyd o waelod calon i bawb am yr arian a gasglwyd yn yr amlenni a thrwy'r dudalen "JUST GIVING". Casglwyd £364 yn y capel a dros £100 ar y dudalen.**

**Diolch yn fawr unwaith eto. Cewch fwy o hanes Tŷ Gobaith tro nesaf.**

*Eleri Williams*







## PAM NA CHAF I HEFYD... HAWL I FARW?

Yn Hydref 2024, pleidleisiodd Aelodau Seneddol San Steffan o blaid egwyddor y **Bil Oedolion Terfynol Sâl** (Diwedd Oes), neu'r **Bil Cymorth i Farw**. Bu trafodaethau pellach dros yr wythnosau diwethaf ar sut y byddai'r bil, pe bai'n dod i rym, yn cael ei weithredu. Yn y DU ar hyn y bryd, mae rhoi cymorth i berson arall ddod â'i fywyd i ben yn drosedd sy'n gallu arwain at hyd at 14 blynedd yn y carchar. Pwrpas y mesur fyddai ei gyfreithloni.

Mae'r gagendor sydd angen ei groesi yn fawr ac afraid fyddai defnyddio pob gair o erthygl fel hon i grynhoi'r dadleuon sydd wedi cael eu gwyntyllu – ni ellid nemor eu cyffwrdd, mor ddyrys ac emosiynol yw'r maes. Ni allaf ond rhannu ychydig sylwadau, am eu gwerth.
Mae agweddau cymdeithas ym Mhrydain wedi trawsnewid dros y degawdau diwethaf, er enghraifft yn 1981 dim ond 18% o'r boblogaeth a gredai fod cael ysgariad yn dderbyniol, i'w gymharu â 64% yn 2022. Er mai dim ond 12% o'r boblogaeth oedd yn 'derbyn' cyfunrhywiaeth yn 1981, daeth priodasau un rhyw yn gyfreithlon yn 2013. Ac er i fesur cymorth i farw tebyg i'r un presennol gael ei drafod yn San Steffan yn 2015, pleidlais ddigamsyniol yn ei erbyn fu gan Aelodau Seneddol bryd hynny. Mae'n amlwg fod ein cymdeithas yn 2025 yn llawer mwy rhyddfrydol nag y bu.

Mae cymdeithas wedi newid mewn ffyrdd eraill hefyd, fel y sylweddolais wrth ddarllen barn gref o blaid cymorth i farw ym mhapur newydd The Economist. Y datganiad oedd y 'dylai pawb gael yr hawl i ddewis pryd a sut maen nhw'n marw'. Un gair sy'n dod i 'mhen i i ddisgrifio rhywun (neu gymdeithas) sy'n meddwl felly, ac nid un Cymraeg ydi o'n anffodus, sef 'entitled'. Dim diwedd annisgwyl nac anghyfleus i mi, diolch. Mi hoffwn i gael marw yn gant oed, yn ddi-boen a'm cyneddfau i gyd yn fy meddiant. Mae gen i hawl! Ond rwy'n amau'n gryf mai fy siomi ga'i, myfi a'r cyfaill dan sylw.

Dydi hyn ddim yn golygu 'mod i'n gwrthwynebu unrhyw ddatblygiad yn y maes rhoi cymorth i farw. Fe ŵyr sawl un ohonom am anwyliaid sy'n llwyr ymwybodol nad oes gwella i fod, ac sy'n dioddef cyfnod hir a dirdynnol o wynebu'r diwedd yn ddibynnol ar eraill. Anaml iawn mae unrhyw sefyllfa'n gwbl ddu a gwyn ac er na fyddai gennyf unrhyw

awydd i fod yn rhan o broses cymorth i farw fel meddyg fy hun (yn wir, i'r gwrthwyneb), rwy'n derbyn y byddai sawl un yn teimlo'n wahanol, ac am sawl rheswm.

Yn fy marn i, byddai cael un ganolfan â staff arbenigol i ddelio â cheisiadau cymorth i farw yn y DU yn fodd o reoleiddio'r broses yn y modd cadarnaf posib. Gocheler y dydd pryd y byddai disgwyl i bob meddyg gynnig y fath 'wasanaeth', er mai felly y mae hi mewn rhai gwledydd yn barod. Yng Nghanada, mae un farwolaeth ym mhob ugain yn digwydd o ganlyniad i gymorth meddygol ac mae posib i nyrs neu fferyllydd roddi'r feddyginiaeth i'r unigolyn ei chymryd. Mae'r ystadegyn yma'n arswydus i feddyg fel fi sydd wedi tyngu llw i beidio, uwchlaw popeth, â gwneud niwed (i glaf). Efallai mai mater ar gyfer mis arall fydd hynny, gan y bydd y mesur cymorth i farw yn ddiau ar agenda ein gwleidyddion am flynyddoedd lawer i ddod.

*Catrin Elis Williams*

***Cyhoeddwyd yr ysgrif uchod yn rhif 749 Mehefin 2025 cylchgrawn BARN gyda chaniatâd caredig yr awdur a'r cyhoeddwyr.***

*TROEDNODYN GAN CATRIN:*

Mae'n rhaid i bawb ystyried ei gynulleidfa *(neu ei chynulleidfa)* wrth drafod neu ddatgan barn, ac felly y gwneuthum innau wrth gyfrannu at gylchgrawn **Barn** mis Mehefin. Felly gwela'i bethau hefyd wrth i gleifion ddod i'm gweld yn y feddygfa. Nid yw'n addas imi farnu ffordd pobl o fyw na'r dewisiadau maen nhw yn eu gwneud yn eu bywydau pob dydd – rhaid imi aros yn niwtral. Ond wrth ystyried mai fy nghyfeillion yn Emaus fydd yn darllen Y Negesydd, rwy'n teimlo'n fwy rhydd i ddweud fy nweud.

Dyfynnir y cwpled **'Duw biau edau bywyd a'r hawl i fesur ei hyd'** yn aml yng nghyd-destun trafod yr hawl i farw, cwpled gan Dafydd Ddu Eryri yn ôl rhai ffynonellau ar y we. Fel Cristnogion mae'n naturiol inni gredu hynny, ac mai **Rhagluniaeth Fawr y Nef** sy'n rheoli holl droeon bywyd. Ond ai gwir yw hynny yn yr unfed ganrif ar hugain? Onid meddygaeth fodern sy'n gyfrifol am y ffaith bod sawl un ohonom yn dal ar dir y byw heddiw? Ai dim ond yr hawl i ddiweddu bywyd ar y ddaear sydd gan Dduw, ac ai dim ond yr hawl i ymestyn bywyd sydd gan ddynoliaeth? Gofynnir y cwestiwn yn aml ***'oes gan feddygon yr hawl i chwarae Duw*** *('to play God')* ***gyda bywydau pobl?'*** -

wel, oes, yn amlwg. Dyna'n union beth a wneir gan feddygon wrth ymchwilio i feddyginiaethau newydd, ac wrth ddefnyddio technegau a llawdriniaethau sydd heb os wedi bod â'r gallu i ymestyn bywydau.



Ai meddwl am sefyllfaoedd o'r fath fel ewyllys Duw yn erbyn ewyllys dyn ddylem ei wneud? Mae'r bardd Elfed yn galw ar Dduw i berffeithio llaw a deall dyn er nid yn unig iachâd, ond hefyd rhyddhad i ddynoliaeth *(Caneuon Ffydd 823)*. Er mae'n bosib bod fy marn yn wrthun i rai, hoffwn feddwl y byddai Duw graslon a thrugarog yn deall awydd rhai meidrolion i gael mynediad at le gwell rhywfaint yn gynt.

Mae cael '***yr hawl i farw'*** yn bwnc anodd iawn i'w thafoli, yn rhannol oherwydd yr holl bwyslais sydd wedi ei roddi erioed ar '***yr hawl i fyw'.*** Yr hyn a wna' i fydd gweddïo ar i Dduw roddi doethineb i'r gwleidyddion a'r meddygon fydd yn gwneud penderfyniadau tyngedfennol yn y maes dyrys hwn yn y blynyddoedd nesaf.

***Catrin***

# CYDYMDEIMLO

Hoffem estyn ein cydymdeimlad ag Elen Lansdown a'r teulu ar farwolaeth **Mrs Enid Griffith**, Ffordd Ffriddoedd, neu 'Anti Enid' yn ddiweddar wedi iddi gyrraedd yr oedran teg o 102. Roedd hi'n wyneb cyfarwydd i genedlaethau o blant (gan gynnwys nifer o aelodau Emaus), gan iddi ddysgu yn Ysgol Ramadeg y Merched yma ym Mangor cyn ei hapwyntio'n ddirprwy yn Ysgol Friars.

*Bu farw **Dilys Thomas***
*Betws y Coed yn 97 oed.*
*Anfonwn ein*
*cydymdeimlad dwysaf*
*at Bryn ei mab*
*a Marian ei merch*
*yng nghyfraith*
*ac at ei hwyrion sef*
*Catrin, Rhys a Gwenno.*

# CYFEIRIADUR EMAUS

**ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:**
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

**BMS:**
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

**CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**GWEINIDOG:**
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

**MASNACH DEG:**
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

**NEGESYDD - CYSODI:**
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

**NEGESYDD - ROTA GOLYGU:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

**PANED A SGWRS**
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
lisjenthomas@gmail.com
362125

**ROTA BLODAU**
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

**ROTA'R ORGAN:**
Enid Griffiths
712726

**SWYDDOG DIOGELU:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**TI A FI:**
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

**TRYSORYDD:**
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

**YSGRIFENNYDD ARIANNOL:**
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

**YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:**
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243